



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



LIVERPOOL
JOHN MOORES
UNIVERSITY

PUBLIC HEALTH

World Health Organization Collaborating Centre
for Violence Prevention

Busnes Pawb

Lleihau Troseddu drwy Ymyrraeth Gynnar

Deall a gwella rôl yr heddlu a phartneriaid amlasiantaeth o ran atal niwed sy'n croesi tirwedd iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol

Busnes Pawb: Lleihau Troseddu drwy Ymyrraeth Gynnar

Deall a gwella rôl yr heddlu a phartneriaid amlasiantaeth o ran atal niwed sy'n croesi tirwedd iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol

Awduron

Zara Quigg¹, Chloe Smith¹, Karen Hughes², Charley Wilson¹, Nadia Butler¹, Lisa Jones¹, Mark A. Bellis¹

¹ Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Atal Trais, Prifysgol John Moores Lerpwl (LJMU), Y Deyrnas Unedig

² Canolfan Gydweithredol WHO ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), Y Deyrnas Unedig

Tachwedd 2023

ISBN: 978-1-83766-279-1

Diolchiadau

Comisiynwyd y gwaith hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n ategu rhaglen waith ehangach a weithredwyd gan Ganolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Atal Trais a Chanolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rydym yn ddiolchgar i'r bobl ganlynol am adolygu'r adroddiad hwn:

- Carol Cox, Pennaeth Canolfan Astudiaethau Plismona Uwch Lerpwl, LJMU, y Deyrnas Unedig.
- Jo Peden, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, ICC, y Deyrnas Unedig.
- Joanne Hopkins, Cyfarwyddwr y Rhaglen, ACEs, Cyfiawnder Troseddol ac Atal Trais, ICC, y Deyrnas Unedig.

Hoffem hefyd ddiolch i'r bobl ganlynol am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r adroddiad hwn:

- Evelyn Hearne (LJMU) ac Ione Collins (ICC) am gymorth gyda phrawfddarlenn.
- Eirian Edmund am y cyfieithiad Cymraeg.

Cyfeiriad Awgrymedig

Quigg Z, Smith C, Hughes K, Wilson C, Butler N, Jones L, Bellis MA (2023). *Busnes pawb: Lleihau troseddu drwy ymyrraeth gynnar. Deall a gwella rôl yr heddlu a phartneriaid amlasiantaeth o ran atal niwed sy'n croesi tirwedd iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol* Lerpwl. Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl, DU.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
1.1 Trosolwg o'r adroddiad	1
1.2 Pam mae lleihau troseddu drwy ymyrraeth gynnar yn bwysig?.....	4
2. Dulliau lleihau troseddu drwy ymyrraeth gynnar	8
2.1. Dulliau system gyfan ac aml-gydran.....	10
2.2 Ymyriadau sylfaenol	14
2.3 Ymyriadau eilaidd	22
2.4 Ymyriadau trydyddol	26
3. Ystyriaethau allweddol ar gyfer gweithredu ymyrraeth gynnar a phlisma ataliol	28
3.1 Hwyluswyr	28
3.2 Heriau.....	30
4. Yr achos dros fuddsoddi mewn lleihau troseddu drwy ymyrraeth gynnar	35
5. Casgliad.....	37
6. Cyfeiriadau.....	38

Crynodeb Gweithredol

Mae sylw cynyddol i bwysigrwydd partneriaid amlasiantaeth yn cydweithio i atal ac ymateb i faterion iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol a rennir megis trais, defnyddio sylweddau, ac iechyd meddwl. Ar draws asiantaethau er enghraifft yr heddlu a chyfiawnder, iechyd a gofal cymdeithasol, llywodraeth leol a'r trydydd sector, cydnabyddir bod achosion sylfaenol llawer o bryderon trawsbynciol iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol yn amlochrog (ee anghydraddoldebau cymdeithasol, tloidi) ac yn faterion a rennir o ran y galw am wasanaethau amlasiantaeth. Mae edrych ar y rhai sy'n ymgysylltu â gwasanaethau drwy lens iechyd y cyhoedd sydd wedi'i lywio gan drawma sy'n ceisio atal a lleihau risgiau o niwed a gwella amddiffyniad ar lefel y boblogaeth, yn cael ei ystyried yn hanfodol ar gyfer newid y ffordd y mae partneriaid amlasiantaeth yn ymateb i droseddu, yn mynd i'r afael â bod yn agored i niwed, a gweithio'n fwy effeithlon i wella iechyd a llesiant y boblogaeth. Yn fyd-eang, mae enghreifftiau amrywiol o ddulliau amlasiantaeth system gyfan o ymyrryd yn gynnar i atal trosedd, lleihau ffactorau risg sylfaenol, a hybu iechyd a llesiant. Er gwaethaf ymarfer amlasiantaeth mor addawol, gall gwasanaethau a sefydliadau weithio mewn seilios yn aml.

Nid yw lleihau troseddu drwy ymyrraeth gynnar yn ymwneud yn unig â'r hyn y mae'r heddlu'n ei wneud i atal ac ymateb i faterion trawsbynciol iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol, ond hefyd â sut y gall partneriaid amlasiantaeth weithio gyda'r heddlu fel rhan o ddull system gyfan iechyd y cyhoedd ar gyfer atal. Nod yr adroddiad hwn yw cynorthwyo dealltwriaeth o sut y gall partneriaid amlasiantaeth, gan gynnwys yr heddlu a chyfiawnder, iechyd a gofal cymdeithasol, llywodraeth leol, addysg, a'r trydydd sector, ymhlith partneriaid eraill, gydweithio i atal niwed sy'n croesi tirwedd iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol. Mae'n darparu enghreifftiau o ffyrdd y gall partneriaid amlasiantaeth weithio i roi dulliau system gyfan ar waith i fynd i'r afael â niwed ac mae'n archwilio meysydd lle mae ymyrraeth gynnar a dulliau plismona ataliol wedi bod yn llwyddiannus neu'n debygol o fod yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys:



Dulliau system gyfan ac aml-gydran ee dulliau seiliedig ar ddata a thystiolaeth; plismona cymunedol; rhaglenni aml-gydran ar lefel gymunedol; a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a dulliau wedi'u llywio gan drawma.



Atal sylfaenol ee mynd i'r afael â normau a gwerthoedd cymdeithasol trwy bolisiâu, deddfwriaeth a strategaethau; addysg rhianta a rhaglenni ymweliadau cartref; darparu addysg (ar gyfer ymarferwyr, a phlant a phobl ifanc) a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau bywyd; rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol i blant a phobl ifanc; ac ymddygiadau atal a monitro troseddu sefyllfaol i wella diogelwch a lleihau troseddu a ffactorau risg cysylltiedig.



Atal eilaidd ee rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol i'r rhai sydd mewn perygl o droseddu; rhaglenni cryfhau teuluoedd; dulliau o nodi, amddiffyn a diogelu pobl agored i

niwed; modelau ymyrraeth mewn argyfwng; a rhaglenni dargyfeirio dan arweiniad yr heddlu.



Atal trydyddol ee cyfiawnder adferol; rhaglenni tynnu liferi/atal â ffocws; rhaglenni dargyfeirio yn y llys; rhaglenni i droseddwy'r i atal aildroseddu a niwed pellach; a rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol i droseddwy'r.

Wrth i lawer o heddluoedd barhau i ddatblygu eu rôl mewn atal, mae'n bwysig deall beth all hwyluso a rhwystro gweithredu dulliau plismona ataliol. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu ffactorau hwyluso allweddol megis: cymorth/adnoddau strategol ac arweinyddiaeth; datblygu a chynrychiolaeth y gweithlu; gweithio mewn partneriaeth amlasiantaeth; a meithrin cysylltiadau cymunedol ac ennill cefnogaeth y cyhoedd. Fodd bynnag, amlygir ystod o rwystrau hefyd, gan gynnwys: diffyg cymorth strategol, cymorth gan reolwyr neu gan y gweithlu; diffyg ymddiriedaeth yn yr heddlu ac ofn ohonynt; diffinio, mesur a chyflawni canlyniadau atal; nodweddion ac asedau cymunedol; capasiti a throsiant staff yr heddlu; diwylliant o 'ymladd troseddu' yn yr heddlu; a diffyg cymorth/gweithio amlasiantaeth a blaenoriaethau sy'n cystadlu. Mae mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn yn hanfodol er mwyn galluogi'r heddlu i weithio'n effeithiol fel rhan o ddull system gyfan o leihau troseddu drwy ymyrraeth gynnar. Yn yr un modd, maent yn faterion sydd hefyd yn debygol o fod yn berthnasol ar draws partneriaid amlasiantaeth.

Mae lleihau troseddu drwy ymyrraeth gynnar yn fusnes pawb a bydd buddsoddi mewn atal troseddu ac ymyrraeth gynnar yn arbed arian yn y tymor hir. Mae angen cymorth ar yr heddlu i atal troseddu a hefyd i ymateb i'r agweddau ar fod yn agored i niwed y maent yn dod ar eu traws yn ddyddiol. Ni allant wneud hyn ar eu pen eu hunain. Mae achosion sylfaenol troseddu ac effeithiau troseddu yn faterion trawsbynciol i bartneriaid amlasiantaeth, ac o'r herwydd mae angen dull iechyd y cyhoedd system gyfan. Mae dull o'r fath yn cymryd persbectif cwrs bywyd ac yn ystyried rolau asiantaethau amrywiol wrth ymyrryd i leihau'r risgiau o niwed, atal troseddu, a materion iechyd y cyhoedd ehangach. Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut mae dulliau lleihau troseddu drwy ymyrraeth gynnar a dulliau ataliol, sy'n canolbwyntio ar ddull iechyd y cyhoedd, yn cael eu mabwysiadu a'u gweithredu ar draws gwahanol wledydd a lleoliadau, gyda pheth tystiolaeth o effeithiau addawol. Fodd bynnag, mae angen gwerthuso systemau cyfan cryf gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau a dulliau i gyd-fynd â'r gwaith hwn. Mae angen i strategaethau cyfathrebu a lledaenu hefyd fod ar waith i sicrhau bod ymarfer a gwersi a ddysgir yn hygyrch ac yn cael eu rhannu'n eang, a bod yr achos dros fuddsoddi mewn atal yn cael ei gynnal.

1. Cyflwyniad

1.1 Trosolwg o'r adroddiad

Ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, mae sylw cynyddol i bwysigrwydd partneriaid amlasiantaeth yn cydweithio i atal ac ymateb i faterion iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol a rennir megis trais, defnyddio sylweddau, ac iechyd meddwl. Ar draws asiantaethau er enghraifft yr heddlu a chyfiawnder, iechyd a gofal cymdeithasol, llywodraeth leol a'r trydydd sector, cydnabyddir bod achosion sylfaenol llawer o bryderon trawsbynciol iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol yn amlochrog (ee anghydraddoldebau cymdeithasol, tloidi) ac yn faterion a rennir o ran y galw am wasanaethau amlasiantaeth. Mae atal a lleihau troseddu, trais, a ffactorau cysylltiedig, hybu iechyd, ac amddiffyn pobl, teuluoedd a chymunedau, yn dargedau allweddol yn nodau Datblygu Cynaliadwy 2030 y Cenhedloedd Unedig (Blwch 1). Ystyrir bod edrych ar y rhai sy'n ymgysylltu â gwasanaethau drwy lens iechyd y cyhoedd (Blwch 2) ac wedi'i llywio gan drawma (Blwch 3) sy'n ceisio atal a lleihau risgiau o niwed a gwella amddiffyniad yn hanfodol ar gyfer newid y ffordd y mae partneriaid amlasiantaeth yn ymateb i droseddu, yn mynd i'r afael â bod yn agored i niwed, ac yn gweithio'n fwy effeithlon i wella iechyd a llesiant y boblogaeth [1-4]. Yn fyd-eang, mae enghreifftiau amrywiol o ddulliau amlasiantaeth system gyfan o ymyrryd yn gynnar i atal troseddu a lleihau ffactorau risg sylfaenol, gan gynnwys gwaith i nodi a chefnogi cymunedau agored i niwed yn gynharach, yn enwedig mewn meysydd fel iechyd meddwl, defnyddio sylweddau, a thrais [3-5]. Er gwaethaf ymarfer amlasiantaeth mor addawol, yn aml gall gwasanaethau a sefydliadau barhau i weithio mewn seilos.

Nid yw lleihau troseddu drwy ymyrraeth gynnar yn ymwneud yn unig â'r hyn y mae'r heddlu'n ei wneud i atal ac ymateb i faterion trawsbynciol iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol, ond mae'n ymwneud â sut mae partneriaid amlasiantaeth yn gweithio gyda'i gilydd fel rhan o ddull iechyd y cyhoedd system gyfan at atal. Nod yr adroddiad hwn yw cynorthwyo dealltwriaeth o sut y gall partneriaid amlasiantaeth, gan gynnwys yr heddlu a chyfiawnder, iechyd a gofal cymdeithasol, llywodraeth leol, addysg, a'r trydydd sector, ymhlith eraill, gydweithio i atal niwed sy'n croesi tirwedd iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol. Mae'n gwneud hyn trwy drafod ffyrdd y gall partneriaid amlasiantaeth gydweithio (gyda'r heddlu) i roi dulliau system gyfan ar waith i fynd i'r afael â niwed ac archwilio meysydd lle mae ymyrraeth gynnar a dulliau plismona ataliol wedi bod yn llwyddiannus neu'n debygol o fod yn llwyddiannus. Mae hefyd yn trafod hwyluswyr a rhwystrau allweddol rhag gweithredu ymyrraeth gynnar a phlismona ataliol, y mae llawer ohonynt hefyd yn debygol o fod yn berthnasol ar draws partneriaid amlasiantaeth. Nod yr adroddiad yw ateb y cwestiynau allweddol canlynol:

1. Pa dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer dulliau system gyfan ac amlasiantaeth o atal niwed sy'n croesi tirwedd iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol?
2. Beth yw'r dystiolaeth ar gyfer ymyrddau sylfaenol, eilaidd a thrydyddol o atal niwed sy'n croesi tirwedd iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol?
3. Pa ffactorau all ddylanwadu ar gyflawniad ac effaith lwyddiannus dulliau o blismona sy'n cwmpasu ymyrraeth gynnar a gweithgarwch atal?

Blwch 1: Nodau Datblygu Cynaliadwy 2030 Y Cenhedloedd Unedig

Mae nodau Datblygu Cynaliadwy 2030 y Cenhedloedd Unedig (CU) yn set o 17 o nodau cydgysylltiedig sy'n anelu at ddarparu fframwaith a rennir ar gyfer hyrwyddo heddwch a ffyniant i bobl, tra'n amddiffyn y blaned, yn awr ac yn y dyfodol. Mae atal troseddu a thrais yn dargedau allweddol o fewn y Nodau Datblygu Cynaliadwy, ac mae llawer o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy sydd â'r nod o wella iechyd a llesiant, diogelu'r blaned, a hybu cynaliadwyedd yn mynd i'r afael â ffactorau a all hybu neu leihau troseddu a materion cysylltiedig. Mae'r rhain yn cynnwys:



Nod 1: Rhoi diwedd ar dlodi o bob math ym mhobman.



Nod 2: Rhoi diwedd ar newyn, sicrhau diogelwch bwyd a gwell maeth a hyrwyddo amaethyddiaeth gynaliadwy ym mhobman.



Nod 3: Sicrhau bywydau iach a hybu llesiant i bawb o bob oed.



Nod 4: Sicrhau addysg gynhwysol a theg o safon a hyrwyddo cyfleoedd dysgu gydol oes i bawb.



Nod 5: Cyflawni cydraddoldeb o ran rhyw a grymuso pob menyw a merch.



Nod 6: Sicrhau argaeledd a rheolaeth gynaliadwy o ddŵr a glanweithdra i bawb.



Nod 8: Hyrwyddo twf economaidd parhaus, cynhwysol a chynaliadwy, cyflogaeth lawn a chynhyrchiol, a gwaith gweddus i bawb.



Nod 10: Lleihau anghydraddoldeb o fewn a rhwng gwledydd.



Nod 11: Gwneud dinasoedd ac aneddiadau dynol yn gynhwysol, yn ddiogel, yn wydn ac yn gynaliadwy.



Nod 15: Gwarchod, adfer a hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ecosystemau daearol, rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy, brwydro yn erbyn diffeithdiro, ac atal a gwrthdroi diraddiant tir ac atal colli bioamrywiaeth.



Nod 16: Hyrwyddo cymdeithasau cyfiawn, heddychlon a chynhwysol ar gyfer datblygu cynaliadwy, darparu mynediad at gyfiawnder i bawb ac adeiladu sefydliadau effeithiol, atebol a chynhwysol ar bob lefel.



Nod 17: Cryfhau'r dulliau gweithredu ac adfywio'r bartneriaeth fyd-eang ar gyfer datblygu cynaliadwy.

Blwch 2: Dull iechyd y cyhoedd

Mae dull iechyd y cyhoedd yn canolbwyntio ar ddiogelu iechyd, llesiant a diogelwch poblogaethau cyfan a'i nod yw atal niwed i'r nifer uchaf o bobl. Mae'n mabwysiadu dull system gyfan ac yn cynnwys partneriaid amlasiantaeth o nifer o sectorau yn cydweithio i roi ymyriadau cynnar ar waith i atal amlygiad i niwed, ac i ymateb i niwed pellach, ei lleihau a'i atal. Mae gan sectorau fel iechyd a gofal cymdeithasol, iechyd y cyhoedd, llywodraeth leol, addysg, yr heddlu a chyfiawnder troseddol, a sefydliadau trydydd sector rôl hanfodol i'w chwarae wrth hyrwyddo ffactorau sy'n lleihau risgiau ac yn amddiffyn pobl rhag niwed. Mae'r dull iechyd y cyhoedd yn ddull seiliedig ar dystiolaeth sy'n dilyn pedwar cam allweddol:

1. **Diffinio a mesur** y broblem.
2. Adnabod **achosion/ffactorau risg** sylfaenol, a ffactorau sy'n amddiffyn pobl rhag niwed.
3. Gan ddefnyddio tystiolaeth o gam 1 a 2, **datblygu, gweithredu a gwerthuso dulliau atal**.
4. **Cynyddu a mabwysiadu dulliau atal effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth** (gan barhau i werthuso lle bo angen); a lledaenu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio (a'r hyn nad yw'n gweithio), i bwy, sut a pham yn eang.

Mae dulliau iechyd y cyhoedd o ran atal yn cynnwys:

1. **Atal sylfaenol** sy'n ceisio atal niwed cyn iddo ddigwydd trwy greu amodau sy'n ei wneud yn llai tebygol o ddigwydd. Mae ymyriadau yn aml wedi'u targedu at boblogaethau cyfan.
2. **Atal eilaidd** (neu ymyrraeth gynnar), yn aml wedi'i dargedu at y rhai sydd mewn perygl o niwed, i atal amlygiad i niwed.
3. **Atal trydyddol**, yn targedu'r rhai sydd wedi bod yn agored i niwed, ac yn anelu at atal ail-ddigwydd, gwaethygu a niwed pellach.

Mae iechyd y cyhoedd yn cydnabod y gall ffactorau risg ac amddiffynnol fodoli ar sawl lefel - unigol, perthynas, cymuned a chymdeithas. Cyfeirir ato fel y model cymdeithasol-ecolegol (gweler Ffigur 1), ac fe'i defnyddir i ddeall y mater, ac i ddatblygu, targedu a gweithredu atal ar draws pob lefel.

Mae'r canfyddiadau'n deillio o chwiliad llenyddiaeth systematig ac maent wedi'u hadolygu gan arbenigwyr sydd â phrofiad o dulliau ymyrraeth gynnar ac ataliol at blismona, a/neu dulliau amlasiantaeth o fynd i'r afael â niwed sy'n croesi iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol. Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n dair adran allweddol:

- Mae pennod dau yn rhoi enghreifftiau o: i) dulliau amlasiantaeth system gyfan at atal niwed sy'n croesi iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol; a ii) ymyriadau sylfaenol, eilaidd a thrydyddol i atal niwed sy'n croesi iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol. Er bod tystiolaeth gref o effeithiolrwydd ar gyfer rhai dulliau sydd wedi'u hen sefydlu, mae tystiolaeth yn dal i ddod i'r amlwg i lawer.
- Mae pennod tri yn crynhoi'r ffactorau allweddol a all hwyluso neu lesteirio gweithredu dulliau ymyrraeth gynnar ac iechyd y cyhoedd at blismona.

- Mae pennod pedwar yn crynhoi'r achos dros fuddsoddi mewn dulliau amlsectoraidd o leihau troseddu drwy ymyrraeth gynnar, a dulliau ataliol o blismona.

Bwriedir i'r adroddiad hwn fod yn ddogfen drafod i gefnogi'r heddlu a phartneriaid amlasiantaeth, sy'n gweithredu dulliau ymyrraeth gynnar ac ataliol o leihau troseddu, neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Nid yw'n anelu at ddarparu adolygiad o ansawdd tystiolaeth dulliau o'r fath nac i eiriol dros ddulliau penodol. Mae enghreifftiau o ddulliau ac ymyriadau a ddarperir yn anelu at ddangos ehangder y dulliau gweithredu, yn hytrach na manylu dim ond ar y rhai sydd wedi'u gweithredu'n rheolaidd neu'r rhai sydd â'r dystiolaeth gryfaf ar hyn o bryd.

Er nad yw'r adroddiad yn canolbwyntio ar ymyriadau i hybu a diogelu iechyd a llesiant ymarferwyr, mae'n bwysig cydnabod bod gwneud hynny'n hollbwysig; a hynny ar gyfer diogelu iechyd a llesiant y gweithlu, ac i alluogi ymarferwyr i roi dulliau ymyrraeth gynnar ac ataliol ar waith yn effeithiol. At hynny, er nad yw'r adroddiad yn canolbwyntio ar gymorth i ddioddefwyr troseddau, mae cymorth o'r fath yn gam allweddol mewn dull iechyd y cyhoedd at atal. Dylid rhoi cymorth i ddioddefwyr ar waith fel rhan o ymateb system gyfan i atal ac ymateb i faterion sy'n croesi tirwedd iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol.

1.2 Pam mae lleihau troseddu drwy ymyrraeth gynnar yn bwysig?

Defnyddir ystadegau troseddu a adroddwyd gan yr heddlu mewn llawer o wledydd fel arwydd o alw ar yr heddlu, fel sail i ddyrannu adnoddau a gosod blaenoriaethau. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth gynyddol mai dim ond is-set o waith yr heddlu y mae ystadegau troseddu yn ei gynrychioli (hy plismona adweithiol traddodiadol) ac yn methu â dal y rôl gynyddol sydd gan yr heddlu o ran atal troseddu a'i ffactorau risg sylfaenol, amddiffyn pobl rhag niwed, cynnal diogelwch cymunedol, a mynd i'r afael â materion cymdeithasol cymhleth. Yn rhyngwladol, mae tystiolaeth yn dangos yn gynyddol bod cyfran fawr o geisiadau am gymorth yr heddlu a gweithgarwch dilynol yn canolbwyntio ar ymarferion heddlu anhraddodiadol [6-9]. Felly, mae'n bwysig ystyried cymhlethdod y galw ar yr heddlu, gan nad yw tueddiadau mewn ystadegau troseddu o reidrwydd yn adlewyrchu tueddiadau mewn galw, na chymhlethdod gwaith yr heddlu a phartneriaid amlasiantaeth. Er enghraifft:

- Amcangyfrifodd adolygiad systematig yn archwilio cyswllt rhwng yr heddlu a phobl ag anhwylderau meddwl ar draws gwledydd incwm uchel yn bennaf¹ y canlynol [9]:
 - Mae un o bob 100 o achosion o anfon yr heddlu a chyfarfyddiadau gan yr heddlu yn cynnwys pobl ag anhwylderau meddwl.
 - Mae 25% o bobl ag anhwylderau meddwl wedi cael eu harestio gan yr heddlu ar ryw adeg yn ystod eu hoes.
- Ledled Cymru a Lloegr, amcangyfrifir bod dros 80% o holl alwadau'r heddlu ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn droseddol, gyda llawer o'r rhain yn ymwneud â materion sy'n ymwneud â bod yn agored i niwed ac anghenion cymdeithasol cymhleth [8].

¹ Roedd yr astudiaethau a gafodd eu cynnwys o Awstralia, Canada, UDA, a'r Deyrnas Unedig yn bennaf.

Yn hollbwysig, mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai'r gyfran fach o'r boblogaeth sy'n profi problemau iechyd a chymdeithasol cymhleth roi galw anghymesur o uchel ar yr heddlu a gwasanaethau eraill [6, 7, 10]. Gall ymwneud â throseddu gan y grŵp agored i niwed hwn fod o ganlyniad i faterion iechyd neu gymdeithasol (ee defnyddio sylweddau) a allai arwain at gylchoedd ailadroddus o gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol ac ymgysylltu â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol os na eir i'r afael ag ef [10]. Mae'r cylch hwn o'r hyn sy'n aml yn gallu bod yn droseddau lefel isel ac angen gwasanaeth mynych, yn rhoi pwysau sylweddol ar wasanaethau a heb ymyrraeth i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol ymgysylltiad unigolion â throseddu, gall materion iechyd a chymdeithasol gael eu gwaethygu ymhellach [10]. Gall unigolion, teuluoedd a chymunedau difreintiedig fod mewn mwy o berygl o droseddoli, a thrwy hynny ddioddef mwy o anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd, cymdeithasol a chyfiawnder troseddol.

Penderfynyddion iechyd yw penderfynyddion troseddu hefyd. Gall sawl penderfynydd cymdeithasol iechyd ac ymddygiad gynyddu'r risg o gymryd rhan mewn troseddu a galw rheolaidd ar wasanaethau iechyd, cymdeithasol a chyfiawnder troseddol (Ffigur 1). Felly, er mwyn lleihau agweddau ar fod yn agored i niwed ac anghydraddoldebau mae angen dulliau integredig ar draws iechyd y cyhoedd, iechyd agofal cymdeithasol, diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol. Mae'n hanfodol cydnabod na all yr heddlu ar eu pen eu hunain fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu, a bod angen dull aml-sector i ymyrryd yn gynnar i atal niwed sy'n croesi tirwedd iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol. Mae gwella dealltwriaeth o rôl yr heddlu a phartneriaid amlasiantaeth mewn ymyrraeth gynnar yn gam hanfodol i alluogi partneriaid i fabwysiadu dull o'r fath. Mae gwasanaethau rheng flaen fel yr heddlu yn bwynt cyswllt hollbwysig ar gyfer y rhai mewn angen ac felly mae ganddynt rôl arwyddocaol wrth ymateb i anghenion cymhleth ac atal niwed pellach. Gellir gweld hyn trwy ddatblygu rolau heddlu sy'n ymwneud â phlisma cymunedol rhagweithiol, ac ehangu cyfrifoldebau i fynd i'r afael â materion sy'n dod i'r amlwg megis camfanteisio. At hynny, mae dull iechyd y cyhoedd ataliol yn cyd-fynd â modelau plisma sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n defnyddio'r dystiolaeth 'orau sydd ar gael' i lywio plisma ac annog meddwl yn feirniadol. **Mae plisma sy'n canolbwyntio ar broblemau** (POP) er enghraifft yn mynd i'r afael â throseddu ac anhrefn drwy ddefnyddio data a chudd-wybodaeth i nodi a deall problem benodol, datblygu ymateb wedi'i deilwra a'i dargedu, a gwerthuso effaith. Mae **model SARA (sganio, dadansoddi, ymateb, asesu)** yn ddull a ddefnyddir yn aml yn y broses datrys problemau. Mae tystiolaeth o effaith POP yn dangos ei fod yn gysylltiedig â gostyngiadau mewn troseddu [11]. Math o POP yw plisma manau problemus sy'n cydnabod y gall troseddu ac anhrefn fod wedi'i glystyru mewn ardaloedd bach. Mae'r dull yn canolbwyntio gweithgareddau'r heddlu (ac asiantaethau partner) ar y meysydd hyn er mwyn atal troseddu lle mae'r rhan fwyaf ohono yn digwydd, gyda'r nod cyffredinol o leihau lefelau troseddu ar draws y boblogaeth ehangach [12].

Blwch 3: Dulliau wedi'u llywio gan drawma

Mae dulliau wedi'u llywio gan drawma yn cael eu defnyddio fwyfwy ar draws ystod eang o sectorau, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, a'r heddlu a chyfiawnder troseddol, ac ar draws gwledydd (ee Cymru²). Mae dull wedi'i lywio gan drawma yn cael ei lywio gan set o egwyddorion sy'n cydnabod bod profiad o drawma yn gyffredin mewn poblogaethau ac y gall effeithio'n negyddol ar weithrediad llawer o unigolion. Nod mabwysiadu dull wedi'i lywio gan drawma yw cefnogi gwytnwch a hunan-effeithiolrwydd a chreu amgylchedd diogel i'r defnyddiwr gwasanaeth (a'r ymarferydd). Mae'n cynnwys cydnabod effaith trawma a strategaethau ymdopi.

Er nad oes diffiniad penodol cyffredinol wedi'i dderbyn o ddull wedi'i lywio gan drawma, ystyrir yn aml ei fod yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a ganlyn [13]:

- **Sylweddoli:** Deall sut mae trawma yn effeithio ar unigolion, teuluoedd a sefydliadau.
- **Cydnabod:** Adnabod arwyddion a symptomau trawma.
- **Ymateb:** Integreiddio gwybodaeth am drawma i bolisiâu, gweithdrefnau ac ymarferion.
- **Gwrthsefyll ail-drawmateiddio:** Ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a staff.


Mae'r egwyddorion canlynol yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau sylfaenol hyn [13]:

- **Diogelwch:** Mae defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo'n ddiogel yn gorfforol ac yn seicolegol; mae diogelwch yn cael ei ystyried yn y lleoliad ffisegol ac yn cael ei hybu mewn rhyngweithiadau rhyngpersonol.
- **Dibynadwyedd a thryloywder:** Mae'r sefydliad yn dryloyw yn ei benderfyniadau a'i weithrediadau er mwyn meithrin ymddiriedaeth gyda defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd, staff, a phartneriaid eraill.
- **Cymorth cymheiriad:** Cydweithio ag unigolion sydd â phrofiad personol o drawma i hybu adferiad ac iachâd.
- **Cydweithio a chydfuddiannaeth:** Rhennir pŵer a gwneud penderfyniadau a gwerthfawrogir mewnbyn o bob lefel sefydliadol.
- **Grymuso, llais, a dewis:** Mae cryfderau a phrofiadau unigolion yn cael eu cydnabod ac adeiladir arnynt; mae defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau ar y cyd a gosod nodau.
- **Materion diwylliannol, hanesyddol a rhyw:** Symud y tu hwnt i stereoteipiau a thueddiadau i fod yn ymatebol i anghenion hiliol, ethnig a diwylliannol gwahanol unigolion.

Er bod ymarferion wedi'i llywio gan drawma yn cael eu defnyddio'n gynyddol ar draws sectorau, ac o fewn cymunedau, mae amrywiadau mewn diffiniadau a darpariaeth yn ei gwneud hi'n anodd deall yr elfennau a'r dulliau mwyaf effeithiol, gydag ychydig yn unig o raglenni wedi'u gwerthuso i ddangos tystiolaeth o effeithiau tymor hwy. Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth o effeithiolrwydd ar gyfer dulliau cyffredinol ac wedi'u targedu, yn enwedig gyda rhai grwpiau agored i niwed [14].

² <https://traumaframeworkcymru.com/wp-content/uploads/2022/07/Trauma-Informed-Wales-Framework.pdf>

Ffigur 1: Ffactorau risg cyffredin ar gyfer ymgysylltu â throseddu a galw mynych ar wasanaethau iechyd, cymdeithasol a chyfiawnder troseddol [15]



2. Dulliau lleihau troseddu drwy ymyrraeth gynnar

Nododd yr adolygiad amrywiaeth o ffyrdd y mae dulliau ymyrraeth gynnar ac ataliol wedi'u defnyddio i fynd i'r afael â materion sy'n croesi agendâu cyfiawnder troseddol ac iechyd y cyhoedd i wella iechyd a llesiant ar lefel unigolion a phoblogaeth. Mae nifer o astudiaethau wedi defnyddio dyluniadau gwerthuso o ansawdd uchel megis treialon lled-arbrofol neu hap-dreialon rheoledig, a dyma'r dystiolaeth gryfaf o effeithiolrwydd. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau a nodwyd yn arsylwadol neu'n ansoddol, er enghraifft yn archwilio newidiadau cyn ac ar ôl ymyrraeth mewn canlyniadau a nodwyd, ac er bod y dystiolaeth o astudiaethau o'r fath yn wannach, maent wedi'u cynnwys i ddangos ystod eang o ddulliau, ac i ddeall y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o effeithiau posibl y dulliau hyn ar gyfer y sawl sy'n derbyn rhaglenni a'r gymuned ehangach. Mae'n bwysig nodi bod y rhan fwyaf o'r astudiaethau hyn wedi'u rhoi ar waith mewn gwledydd incwm uchel, a'r UDA yn bennaf.

Mae dulliau a nodwyd yn ymestyn ar draws y lefelau atal sy'n targedu poblogaethau cyfan (atal sylfaenol), y rhai sydd mewn perygl o niwed (atal eilaidd), a'r rhai sydd wedi'u hamlygu i niwed (atal trydyddol). Mae rhai rhaglenni hefyd yn croesi lefelau ymyrraeth, yn enwedig dulliau system gyfan ac aml-gydran, a gallant hefyd fod yn berthnasol i grwpiau poblogaeth lluosog (ee poblogaeth gyfan a grwpiau mewn perygl). Darperir ymyriadau'n uniongyrchol drwy bartneriaethau amlasiantaeth, gan yr heddlu, neu wasanaethau eraill. Gall ymyriadau'n gynnar mewn bywyd sy'n anelu at hybu iechyd a llesiant a weithredir gan wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill hefyd leihau'r risg ar gyfer ymgysylltu â throseddu yn y dyfodol, a darperir enghreifftiau o'r rhain drwyddi draw gan y gall y rhain fod yn rhan o ddulliau amlasiantaeth system gyfan o ymyrryd yn gynnar i atal materion cyfiawnder troseddol, iechyd a chymdeithasol cymhleth.

Mae'r dulliau atal a'r mathau o ymyriadau a gwmpesir yn y ddogfen hon yn cynnwys:



Dulliau system gyfan ac aml-gydran

- Dulliau seiliedig ar ddata a thystiolaeth.
- Plismona cymunedol.
- Rhaglenni aml-gydran ar lefel gymunedol.
- Dulliau wedi'u llywio gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma.



Atal sylfaenol

- Mynd i'r afael â normau a gwerthoedd cymdeithasol trwy bolisïau, deddfwriaeth a strategaethau.
- Addysg rhianta a rhaglenni ymweliadau cartref.

- Darparu addysg a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau bywyd.
 - Hyfforddiant heddlu ac amlasiantaeth ar dulliau ymyrraeth gynnar ac ataliol.
 - Rhaglenni addysg i blant a phobl ifanc.
- Rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol i blant a phobl ifanc.
- Atal troseddu sefyllfaol a monitro ymddygiad i wella diogelwch a lleihau troseddu a ffactorau risg cysylltiedig.



Atal eilaidd

- Rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o droseddu.
- Rhaglenni cryfhau teuluoedd.
- Dulliau o nodi, amddiffyn a diogelu pobl agored i niwed.
 - Dulliau amlasiantaeth o nodi, diogelu a chefnogi pobl agored i niwed.
 - Hyfforddiant staff amlasiantaeth mewn agweddau ar fod yn agored i niwed, diogelu, ac ymarferion wedi'u llywio gan drawma.
 - Timau neu adrannau amddiffyn a diogelu.
 - Fflagiau neu systemau ar gyfer adnabod cartrefi/pobl sy'n agored i niwed.
- Modelau ymyrryd mewn argyfwng
- Rhaglenni dargyfeirio dan arweiniad yr heddlu.



Atal trydyddol

- Cyfiawnder adferol.
- Rhaglenni tynnu liferi/atal â ffocws.
- Rhaglenni dargyfeirio yn y llys.
- Rhaglenni i droseddwr i atal aildroseddu a niwed pellach.
- Rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar gyfer troseddwr.

2.1. Dulliau system gyfan ac aml-gydran

2.1.1 Dulliau seiliedig ar ddata a thystiolaeth

Mae dulliau gweithredu iechyd y cyhoedd a modelau plismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn defnyddio'r dystiolaeth 'orau sydd ar gael' i lywio dulliau atal ac annog meddwl yn feirniadol (gweler Blwch 2). Mae defnyddio data amlasiantaeth yn hanfodol ar gyfer deall natur a graddau materion iechyd, cymdeithasol a chyfiawnder troseddol cymhleth, nodi ffactorau risg ac amddiffynnol (yn enwedig er mwyn ymyrryd yn gynnar), a gwerthuso cynnydd. Er y gall data'r heddlu gynnig cyfoeth o gudd-wybodaeth, mae llawer o droseddau nad ydynt yn dod i sylw'r heddlu, a gall troseddwy'r dioddefwyr ddod ar draws gwasanaethau eraill. Er enghraifft, gall iechyd a phartneriaid eraill chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o atal troseddu drwy fonitro troseddau sy'n effeithio ar iechyd (ee trais) a/neu ymddygiadau sy'n niweidio iechyd sy'n gysylltiedig â throseddau (ee defnyddio sylweddau) a rhannu gwybodaeth i lywio ymyrraeth gynnar a dulliau atal. Yn gynyddol, mae tystiolaeth yn awgrymu y gall defnyddio data iechyd i lywio gweithgarwch amlasiantaeth i atal trais gefnogi gostyngiadau mewn anafiadau sy'n gysylltiedig â thrais ar lefel gymunedol (gweler Blwch 4). Yn y Deyrnas Unedig, mae'r Ddyletswydd Trais Difrifol yn mandadu bod partneriaid amlasiantaeth yn rhannu data a gwybodaeth i ddeall achosion trais ac yn defnyddio'r dystiolaeth hon i ddatblygu asesiad o anghenion yn lleol, a strategaeth amlasiantaeth i atal trais difrifol gan ddilyn dull iechyd y cyhoedd (gweler 2.2.1).

Blwch 4. Defnyddio data iechyd i lywio atal trais

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyfran fawr o droseddau treisgar nad ydynt yn cael eu cofnodi gan yr heddlu, ond eto gall dioddefwyr a goroeswyr ymweld â chyfleusterau gofal iechyd i drin anafiadau sy'n gysylltiedig â thrais [16-19]. Felly, i lywio atal trais (a gwella iechyd a llesiant), mewn gwahanol wledydd datblygwyd systemau gwyliadwriaeth sy'n cefnogi casglu, rhannu a defnyddio data iechyd mewn gweithgarwch atal amlasiantaeth [18, 20-26]. Model Caerdydd, a ddatblygwyd yng Nghymru, yw'r dystiolaeth fwyaf o ddulliau gweithredu o'r fath [22, 23]. Trwy ddatblygu partneriaeth amlasiantaeth i atal trais, cyfunwyd data ar amgylchiadau ymosodiadau a gasglwyd gan gleifion yn mynychu adran achosion brys gyda phresenoldebau cysylltiedig â thrais â data troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu a'u defnyddio i lywio'r gwaith o dargedu gweithgarwch atal trais. Mae'r ymyriad wedi'i gysylltu â gostyngiadau sylweddol mewn anafiadau cysylltiedig â thrais, yn seiliedig ar dderbyniadau i'r ysbyty (gostyngiad o 42%) a throseddau a gofnodwyd gan yr heddlu (gostyngiad o 32%). Mae'r Model wedi'i ailadrodd mewn gwledydd eraill (ee Awstralia/UDA [21, 24]). Mewn manau eraill, fel rhan o systemau gwyliadwriaeth trais amlasiantaeth ehangach a dulliau iechyd y cyhoedd system gyfan o atal trais, ategir data ar amgylchiadau ymosodiadau gan ddata ar ddemograffeg gymdeithasol cleifion i wella dealltwriaeth o'r grwpiau a'r cymunedau sydd fwyaf mewn perygl o ddioddef trais i lywio ymyrraeth gynnar (ee Canolfannau Data Unedau Lleihau Trais [VRU], Cymru a Lloegr [Gweler blwch 5]). Er enghraifft, yng Nghymru a Lloegr, mae'r Grŵp Cudd-wybodaeth Trawma ac Anafiadau wedi datblygu canolfannau data amlasiantaeth ar gyfer gwahanol VRUau. Mae'r canolfannau data hyn yn galluogi partneriaid amlasiantaeth i gael mynediad at ddata o gyfleusterau gofal iechyd (ee presenoldeb mewn adrannau achosion brys, galwadau ambiwlans), data'r heddlu a phartneriaid eraill, ynghyd â setiau data sydd ar gael i'r cyhoedd (ee data gwaharddiadau ysgol, amddifadedd) mewn lleoliad canolog, i lywio gweithgarwch atal. Defnyddiwyd data o'r fath i lywio cynllunio strategol a gweithgareddau amlasiantaeth [27, 28].

2.1.2 Rhaglenni aml-gydran lefel gymunedol

Nod ymyriadau aml-gydran lefel gymunedol yw dylanwadu ar y gymuned neu'r system gyfan, i atal materion cymhleth sy'n croesi agendâu cyfiawnder troseddol, iechyd, ac agendâu cyhoeddus ehangach. Wedi'u gweithredu mewn partneriaeth ag asiantaethau llywodraethol ac anllywodraethol perthnasol, a'r gymuned, eu nod yw darparu newid parhaol trwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol niwed ar lefel unigol, perthynas, cymuned a chymdeithas, a gwella ffactorau amddiffynnol. Gall rhaglenni o'r fath gynnwys ymyriadau wedi'u targedu at y gymuned gyfan a'r rhai sydd mewn perygl o niwed neu'n agored i niwed. Er enghraifft, mewn sawl gwlad (ee UDA, y Deyrnas Unedig), mae dulliau iechyd y cyhoedd system gyfan o atal trais yn cael eu gweithredu i atal ac ymateb i drais rhyngpersonol (gweler Blwch 5) ac mae'r dulliau hyn wedi'u cysylltu â gostyngiadau mewn trais ar lefel y gymuned. At hynny, mae gwerthusiadau'n awgrymu y gall rhaglenni o'r fath fynd i'r afael â'r ffactorau risg sylfaenol ar gyfer trais, a gwella dulliau cydgysylltiedig o atal trais, gan gynyddu'r potensial ar gyfer newid hirdymor [29, 30].

Ledled Ewrop, Awstralia ac UDA, mae tystiolaeth yn awgrymu y gall ymyriadau aml-gydran ar lefel gymunedol fod yn effeithiol wrth atal niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol mewn lleoliadau bywyd nos. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys partneriaid amlasiantaeth (yn enwedig yr heddlu, iechyd, a llywodraeth leol) yn gweithredu cyfres gydgysylltiedig o ymyriadau ategol i ysgogi'r gymuned i atal niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, hyfforddi staff bar i weini alcohol yn gyfrifol a chryfhau gorfodi deddfwriaeth alcohol. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall rhaglenni o'r fath atal gwerthu alcohol i gwsmeriaid meddw, a lleihau lefelau meddwdod a thrais, er bod canlyniadau'n amrywio ar draws gwledydd (Blwch 5). Yn Sweden, lle mae'r dystiolaeth gryfaf o ran rhaglenni o'r fath, mae'r gweithredu wedi'i ymestyn ar draws ardaloedd a lleoliadau, gan gynnwys mewn gwyliau a stadia chwaraeon [31].

2.1.3 Plismona cymunedol

Mae plismona cymunedol yn cydnabod na all yr heddlu ddatrys troseddu ar eu pen eu hunain ac mae'n canolbwyntio ar ddatblygu cysylltiadau rhwng yr heddlu a'r gymuned, i'w galluogi i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu atebion cydweithredol i atal ac ymateb i droseddu a materion cymunedol [32]. Gall hyn gynnwys meithrin partneriaethau rhwng yr heddlu ac arweinwyr cymunedol lleol fel grwpiau a chanolfannau ffydd a grwpiau a chanolfannau cymunedol eraill. Gall y gymuned ddarparu gwybodaeth werthfawr a mewnwleidiad i atal troseddu trwy ddarparu gwybodaeth leol. Mae rolau plismona sefydledig ar gyfer y gymuned, ar ffurf timau plismona yn y gymdogaeth a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu (PSCOs), yn hwyluso'r bartneriaeth rhwng yr heddlu a'r gymuned ac yn grymuso'r gymuned i chwarae rhan weithredol wrth ddatblygu atebion ar gyfer eu cymuned, a hefyd helpu i sefydlu rheolaeth gymdeithasol dros ymddygiad gwyrddroedig [32, 33]. Er bod tystiolaeth yn awgrymu y gall plismona sy'n canolbwyntio ar y gymuned gael effeithiau cadarnhaol ar ganfyddiadau cymunedau o'r heddlu ac anhrefn, prin yw'r dystiolaeth o effeithiau ar droseddu ar hyn o bryd [34]. Fodd bynnag, yn Lloegr, mae patrolau gan PCSOs wedi bod yn gysylltiedig â llai o ddiwrnodau o garcharu posibl ar draws poblogaethau mewn mannau problemus wedi'u targedu o gymharu ag ardaloedd rheoli, gydag elw posibl ar fuddsoddiad o £5.60 o leiaf am bob £1 a wariwyd ar batrôl [12].

Blwch 5: Dulliau Iechyd y Cyhoedd o atal trais rhyngpersonol a niwed cysylltiedig

'Cure violence', UDA: Mae 'cure violence' yn ddull cymunedol o atal trais gynnu trwy newid agweddau a normau unigol a chymunedol ynghylch trais gynnu. Mae'r dull yn ystyried trais drwy lens epidemiolegol, fel ymddygiad trosglwyddadwy a ddysgir y gellir ymyrryd ag ef [29]. Nod y model Cure Violence yw nodi'r unigolion sydd fwyaf mewn perygl o ddiodef trais gynnu ac ymyrryd i newid eu hagweddau a'u hymddygiad. Mae hefyd yn meithrin capasiti lleol ac yn hyrwyddo twf cymdeithasol ac economaidd trwy greu cymunedau mwy diogel a chysylltu unigolion risg uchel ag adnoddau ar gyfer parodrwydd am swydd, addysg, a gwasanaethau iechyd [29, 35]. Mae gwerthusiad yn dangos bod y dull gweithredu wedi cael effaith sylweddol yn UDA, gyda gostyngiadau o 40-70% mewn saethu a lladd mewn ardaloedd gweithredu. Roedd canlyniadau cadarnhaol ehangach y rhaglen yn cynnwys mwy o deimladau o ddiogelwch cymunedol, gwell canlyniadau rhianta, gwell canlyniadau cyflogaeth ac addysg a newidiadau mewn normau cymunedol ynghylch trais [29].

Unedau Lleihau Trais (VRUs), y Deyrnas Unedig: Ers 2019 mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi darparu cyllid i heddluoedd rhanbarthol (a ddewiswyd i adlewyrchu cyfraddau uchel o drais) i ddatblygu a gweithredu unedau lleihau trais (VRUs) [36]. Mae VRUau yn defnyddio dull iechyd y cyhoedd o atal trais trwy gefnogi gwaith amlasiantaeth, rhannu a dadansoddi data, ymgysylltu â chymunedau, a gweithredu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Canfu gwerthusiad arwyddion cynnar bod VRUau yn effeithio ar atal trais. Rhwng Ebrill 2019 a Medi 2020, amcangyfrifwyd bod 41,377 o droseddau trais heb anaf a 7,636 o droseddau trais ag anaf wedi'u hatal mewn ardaloedd a ariannwyd, o'u cymharu ag ardaloedd heb eu hariannu, gydag arbediad cost posibl o £385m (elw o £3.16 am bob £1 a fuddsoddwyd) [36].

STAD, Sweden: Nod y rhaglen Stockholm Prevents Alcohol and Drug Problems (STAD) yw atal niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol mewn lleoliadau bywyd nos trwy weithredu dull aml-gydran ar lefel gymunedol sy'n cwmpasu cynllunio amlasiantaeth, cynnull cymunedol, gorfodi'r gyfraith cryfach, a hyfforddiant gweinyddwyr bar cyfrifol (RBS). Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y rhaglen yn gysylltiedig â gostyngiadau sylweddol yng ngwerthiant alcohol i gwsmeriaid ffug-feddw, yfed dan oed, a thrais mewn lleoliadau bywyd nos [37, 38]. Mae ymyriadau tebyg wedi'u datblygu a'u gweithredu mewn gwledydd Ewropeaidd eraill (ee Norwy, y Ffindir, y Deyrnas Unedig); fodd bynnag, cymysg yw'r dystiolaeth am eu heffeithiolrwydd [39-41]. Canfu un astudiaeth fod gorfodi gan yr heddlu yn elfen allweddol, gan ddangos felly ei bod yn bwysig neilltuo adnoddau i hyn [42]. Yn yr un modd, canfu astudiaeth yn yr UD fod gan heddluoedd oedd â swyddog amser llawn wedi'i neilltuo i orfodaeth alcohol (o'i gymharu â'r rhai heb swyddog alcohol amser llawn) gyfle 2.5 gwaith yn uwch o gyflawni ymdrechion gorfodi gorweini [43].

2.1.4 Dulliau wedi'u llywio gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma

Yn fyd-eang, mae heddluoedd amrywiol yn gweithio tuag at weithredu neu wella ymarferion wedi'u llywio gan drawma. Mae'r Substance Abuse and Mental Health Services Administration (SAMHSA) yn

nodi bod dull wedi'i lywio gan drawma yn “**sylweddoli** effaith eang trawma ac yn deall llwybrau posibl ar gyfer adferiad; yn **adnabod** arwyddion a symptomau trawma mewn cleientiaid, teuluoedd, staff, ac eraill sy'n ymwneud â'r system; yn **ymateb** trwy integreiddio gwybodaeth am drawma yn llawn i mewn i bolisiau, gweithdrefnau ac ymarferion; ac yn ceisio **gwrthsefyll ail-drawmateiddio** yn weithredol” (gweler Blwch 3; [13]).

Mae **dulliau wedi'u llywio gan drawma** yn anelu at sicrhau bod ymarferwyr, sefydliadau, a phartneriaethau amlasiantaeth yn cydnabod effeithiau trawma ar draws cwrs bywyd a sut y gall trawma effeithio ar ymddygiadau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi anghenion y gwasanaethau hynny sy'n gysylltiedig yn fwy effeithiol, gan gynnwys y system cyfiawnder troseddol. Mae gan gefnogi'r heddlu a phartneriaid eraill i weld unigolion trwy lens ACE wedi'i llywio gan drawma y potensial i'w helpu i adnabod pobl agored i niwed, ymyrryd yn gynnar, atal niwed yn y dyfodol, a helpu i adeiladu canlyniadau cadarnhaol i unigolion, teuluoedd a chymunedau. Er bod tystiolaeth yn gyfyngedig, mae astudiaethau'n awgrymu y gall hyfforddiant i weithwyr proffesiynol (gan gynnwys yr heddlu) ar ACE a thrawma wella gwybodaeth ac agweddau (gweler Adran 2.2.3). Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth o effaith plismona wedi'i lywio gan drawma ar unigolion sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, efallai'n rhannol oherwydd datblygiad diweddar y maes hwn a'r angen am fwy o waith i drosi dulliau wedi'u llywio gan drawma yn ymarfer. Er gwaethaf hyn, mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu bod **lleoliadau cyfiawnder troseddol ehangach yn gweithredu ymarferion wedi'u llywio gan drawma** yn gallu cael canlyniadau cadarnhaol i unigolion a gweithwyr proffesiynol. Er enghraifft, mae rhywfaint o dystiolaeth y gall carchardai sy'n gweithredu ymarferion wedi'u llywio gan drawma brofi gostyngiadau mewn trais tuag at staff a charcharorion, a gwelliannau mewn iechyd meddwl carcharorion [1]. At hynny, mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid sy'n gweithredu ymarferion wedi'u llywio gan drawma wedi gweld canlyniadau gwell i blant (Blwch 6).

Blwch 6: Rheoli achosion yn well, cyfiawnder ieuenctid, Cymru

Ar draws Cymru a Lloegr, mae'r system cyfiawnder ieuenctid (YJS) yn anelu at ddull mwy cadarnhaol sy'n seiliedig ar gryfderau er mwyn dargyfeirio plant oddi wrth y system cyfiawnder troseddol ffurfiol a hybu cryfderau unigol a chanlyniadau cadarnhaol. Yng Nghymru, rhoddwyd prosiect rheoli achosion yn well (ECM) ar waith i roi cymorth mwy effeithiol i blant sy'n ymwneud â'r YJS ag anghenion cymhleth, gan gynnwys profiadau o ACE a thrawma. Nod ECM yw defnyddio tystiolaeth ar draws partneriaid i ddeall beth sydd wedi digwydd i'r plentyn a nodi ei anghenion, ei gryfderau a'i asedau, i weithio gyda'r plentyn a'i gefnogi i gyflawni canlyniadau gwell. Yn dilyn hyfforddiant i staff yn y YJS ar ECM, wedi'i ategu gan ymarferion wedi'u llywio gan drawma a'r model adfer o drawma, awgrymodd gwerthusiadau welliannau o ran: dealltwriaeth staff o hanes plant, darpariaeth gwasanaethau, perthnasoedd cadarnhaol rhwng plant a staff, a chanlyniadau plant megis cynnydd o ran rheoleiddio emosiynol a mwy o hunanwerth [2].

2.2 Ymyriadau sylfaenol

2.2.1 Mynd i'r afael â normau a gwerthoedd cymdeithasol trwy bolisiau, deddfwriaeth a strategaethau

Partneriaid dan sylw, ee: llywodraeth leol/cenedlaethol; gwasanaethau; grwpiau cymunedol/eiriolaeth.

Gall polisiau, deddfwriaeth a strategaethau anelu at newid normau cymdeithasol, ymddygiadau ac amgylcheddau sy'n hybu cyfiawnder troseddol a materion iechyd a chymdeithasol trawsbynciol. Er enghraifft, mae deddfwriaeth sy'n troseddoli trais (ee trais partner agos, cosbi plant yn gorfforol), yn gwahardd cario neu ddefnyddio arfau (ee drylliau/cyllyll) neu'n rheoli cyffuriau narcotig a sylweddau seicotropig (y tu allan i ddefnydd meddygol) yn cael eu gorfodi er mwyn gweithredu fel ataliad, gan anelu at newid normau cymdeithasol trwy amlygu annerbynioldeb ymddygiadau o'r fath, a galluogi cyfiawnder troseddol ac ymyrraeth ehangach. Er enghraifft:

- Mae confensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar reoli cyffuriau yn darparu fframwaith rhyngwladol ar gyfer rheoli cyffuriau narcotig a sylweddau seicotropig y tu allan i ddefnydd meddygol [44]. Er mai prin yw'r dystiolaeth am effeithiolrwydd cyfreithiau cyffuriau, mae deddfwriaeth yn anfon neges gref ynghylch derbynoldeb ymddygiadau defnyddio cyffuriau ar draws cymdeithas.
- Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym 1989) yn hyrwyddo dileu cosb gorfforol a mathau eraill o gosbi creulon neu ddiraddiol. Yn fyd-eang, erbyn diwedd 2022, roedd 65 o daleithiau wedi gwahardd cosb gorfforol yn llwyr, ac roedd 27 wedi ymrwymo i ddiwygio eu cyfreithiau i gyflawni gwaharddiad cyfreithiol llwyr. Fodd bynnag, dim ond 14% o blant y byd sydd wedi'u hamddiffyn yn llawn gan y gyfraith rhag pob cosb gorfforol, ac mewn 15 talaith nid yw cosb gorfforol wedi'i gwahardd yn llawn mewn unrhyw leoliad [45].
- Nod amrywiol gyfreithiau a pholisiau rhyngwladol yw atal ac ymyrryd mewn trais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys trais gan bartner agos a thrais rhywiol. Fodd bynnag, mae amrywiaeth o ran gweithredu a gorfodi deddfwriaeth o'r fath ar draws gwledydd [46, 47].
- Mae cyfreithiau drylliau yn gysylltiedig â gostyngiadau mewn troseddau a thrais; fodd bynnag, mae tystiolaeth yn wan ac yn ddiffygiol mewn rhai rhanbarthau [11, 48].
- Mae gan bolisiau a deddfwriaeth iechyd y cyhoedd ehangach hefyd y potensial i atal troseddu (ee pris ac argaeledd alcohol; Blwch 7).

Blwch 7: Pris ac argaeledd alcohol

Cynyddu pris alcohol a chyfyngu ar ei argaeledd yw dwy o'r strategaethau mwyaf effeithiol ar gyfer lleihau defnydd niweidiol o alcohol yn y boblogaeth gyffredinol [49, 50]. Dangoswyd hefyd bod y mathau hyn o gyfyngiadau yn cael effaith gref ar leihau troseddu, trais, yfed a gyrru, digwyddiadau traffig ffyrdd ac anafiadau [11, 51].

Ar draws rhai gwledydd, mae polisïau, deddfwriaeth, a strategaethau wedi'u datblygu a'u rhoi ar waith i hyrwyddo a gorfodi'r gwaith o weithredu dulliau ataliol amlasiantaeth o ymdrin â materion iechyd y cyhoedd a phlisma trawsbynciol. Er enghraifft:

- Yn Lloegr, yn 2018, ymrwymodd y Coleg Plisma, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, Cyngor Cenedlaethol Penaeithaidd yr Heddlu (NPCC) a phartneriaid eraill i'r consensws Plisma, Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd y consensws yn darparu fframwaith i'r heddlu, iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau gwirfoddol a chymunedol weithio gyda'i gilydd i wella iechyd a llesiant pobl, atal troseddu ac amddiffyn pobl sy'n agored i niwed [52].
- Ers 2019, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymgynghori ar ddulliau o atal ac ymateb i drais difrifol, gydag ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth glir i fabwysiadu dull iechyd y cyhoedd amlasiantaeth at atal. Yn dilyn hynny, fel rhan o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022, mae'r Llywodraeth wedi datblygu Dyletswydd Trais Difrifol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu a phartneriaid penodedig (asiantaethau cyfiawnder troseddol, llywodraeth leol, tân ac achub, awdurdodau iechyd ac eraill fel y bo'n berthnasol, ee addysg) i gydweithio i asesu natur, maint a ffactorau risg (ac amddiffynnol) ar gyfer trais difrifol yn lleol, a chynhyrchu a gweithredu strategaeth amlasiantaeth i ymateb i'r materion lleol hynny [53] (gweler Adran 2.1 am enghreifftiau o ddulliau system gyfan o atal trais ac ymateb i drais ym maes iechyd y cyhoedd).

2.2.2 Addysg rhianta a rhaglenni ymweliadau cartref

Partneriaid dan sylw, ee iechyd a gofal cymdeithasol; llywodraeth leol; trydydd sector; gwasanaethau cymorth.

Byddai dull iechyd y cyhoedd yn cynnwys cyfres o ymyriadau i fynd i'r afael â bod yn agored i niwed ar wahanol gamau y cwrs bywyd. Felly, byddai dull system gyfan o leihau troseddu drwy ymyrraeth gynnar yn cynnwys ymyriadau yn gynnar mewn bywyd sydd â'r potensial i gael effeithiau tymor hwy ar agendâu cyfiawnder troseddol ac iechyd y cyhoedd ac arbed costau iddynt. Mae hyn yn cynnwys **rhaglenni rhianta** sy'n anelu at wella datblygiad plant, a chryfhau teuluoedd ac ymarferion rhianta fel:

- **Rhaglenni addysg rhianta**, gan anelu at atal problemau penodol megis disgyblaeth lem a thrawma cam-drin y pen; neu,
- **Rhaglenni ymweliadau cartref** sy'n anelu at ddatblygu ymarferion rhianta cadarnhaol, hybu amgylchedd cartref diogel, a gwella cymorth i deuluoedd.

Mae rhaglenni rhianta yn gysylltiedig â gostyngiadau mewn cam-drin plant ac anafiadau i blant a ffactorau risg cysylltiedig (ee cam-drin ac esgeulustod, trais gan blant yn ddiweddarach mewn bywyd, a thrais domestig rhwng rhieni) [11, 54]. O ystyried y cysylltiadau cryf rhwng dod i gysylltiad ag ACE (gan gynnwys cam-drin plant) a'r risgiau uwch o ymgysylltu â throseddu a thrais ymhlith pobl ifanc ac oedolion (Blwch 8), mae atal ACE a chryfhau teuluoedd yn hanfodol i ymyrryd yn gynnar i fynd i'r afael â throseddu ac ystod eang o faterion iechyd a chymdeithasol [54]. At hynny, gallai dulliau cydgysylltiedig rhwng yr heddlu a phartneriaid amlasiantaeth gynnwys yr heddlu fel

ffynhonnell o atgyfeiriadau i raglenni ymyrraeth gynnar, gan helpu teuluoedd agored i niwed i gael y cymorth y gallent fod ei angen a thrwy hynny leihau'r galw am blismona yn y dyfodol.

Blwch 8: Y berthynas rhwng ACE a materion trawsbynciol iechyd y cyhoedd a chyfiawnder troseddol

Mae meta-ddadansoddiad o astudiaethau sy'n archwilio'r cysylltiadau rhwng ACE a chanlyniadau iechyd a llesiant mewn oedolion yn dangos, o gymharu â'r rhai na chafodd unrhyw ACE, fod y rhai a ddioddefodd bedwar ACE neu fwy yn [55]:

- 4 gwaith yn fwy tebygol o brofi iechyd meddwl gwael.
- 5 gwaith yn fwy tebygol o ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon.
- 5 gwaith yn fwy tebygol o adrodd am ddefnydd problemus o alcohol.
